**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1138
Ein cyf/Our ref JM/00221/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

Annwyl Janet,

10 Mawrth 2021

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 25 Ionawr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â rhoi profion wythnosol i staff sy'n gofalu am bobl ag anghenion meddygol cymhleth. Cafodd eich llythyr ei anfon ymlaen ataf i er mwyn imi ymateb, gan mai fi sy'n gyfrifol am y maes sy'n berthnasol i'r materion yr ydych yn eu codi.

Yma yng Nghymru, mae diogelu ein GIG, a'n dinasyddion mwyaf agored i niwed, yn parhau'n ganolog i'n hymateb i COVID-19, ac un o flaenoriaethau ein strategaeth brofi yw galluogi gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i barhau i ddarparu gofal i bobl mewn ysbytai ac mewn gofal sylfaenol, yn ogystal â lleoliadau gofal yn y gymuned.

Ar 4 Rhagfyr, fe wnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyhoeddiad ynglŷn â darparu profion i'r staff iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen hynny nad ydynt yn rhan o raglen profi rheolaidd ar hyn o bryd. I ddechrau roedd y rhaglen yn ei chyfanrwydd yn destun peilot braenaru i'n helpu i ddatblygu atebion i rai o'r rhwystrau a allai amharu ar ei heffeithiolrwydd, ond bellach rydym wedi dechrau ar y gwaith o roi profion rheolaidd i bob claf a phob aelod o staff iechyd a gofal cymdeithasol sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â'r cyhoedd. Rwyf wedi cynnwys dolen at y cyhoeddiad isod er mwyn ichi allu cyfeirio ato
https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-profion-covid-19-i-weithwyr-gofal-iechyd-gofal-cymdeithasol-staff-hosbis

Bydd staff iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu profi ddwywaith yr wythnos – bob tri i bedwar diwrnod – gan ddefnyddio Dyfeisiau Llif Unffordd. Mae'r profion hyn yn canfod presenoldeb antigenau feirysol COVID-19 o sampl ar swab, a gall gynhyrchu canlyniadau o fewn 30 o funudau, sy'n golygu bod unigolion sy'n cael prawf positif yn cael eu hadnabod a'i hynysu'n llawer cynt nag a fyddai'n digwydd drwy'r broses profion PCR, lle mae angen anfon y swab â'r sampl i labordy.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n gobeithio’n fawr y bydd y rhaglen yn helpu i leihau’r cyfraddau heintio yn ein cymunedau, er mwyn diogelu’r bobl hynny a fyddai mewn mwy o berygl pe baent yn dal y feirws, a dod o hyd i’r bobl sy’n heintus ond nad ydynt yn dangos symptomau.

Yn gywir,

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Health and Social Services